Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Centre for Trials Research

Canolfan Ymchwil Treialon













# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## 2019/20


Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CANCER RESEARCH UK

www.caerdydd.ac.uk/centre-for-trials-research

# Mae Canolfan Treialon Ymchwil Prifysgol Caerdydd yn uned dreialon ymchwil sydd wedi cofrestru â Chydweithrediad Ymchwil Clinigol y DU (UKCRC).




# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 2 |
| Rhagair | 3 |
| Pecyn gwaith 1: Rheoli ein gwaith | 7 |
| Pecyn gwaith 2: Cydweithio â grwpiau eraill | 11 |
| Pecyn gwaith 3: Datblygu astudiaethau newydd | 14 |
| Pecyn gwaith 4: Goruchwylio'r astudiaethau a ariennir | 18 |
| Pecyn gwaith 5: Sicrhau datblygiad methodolegol a phroffesiynol | 25 |
| Pecyn gwaith 6: Cefnogi arloesedd gan y GIG ac ymarfer gofal cymdeithasol | 28 |
| Casgliad | 31 |
| Edrych i'r dyfodol | 32 |


**Lluniau ar y clawr blaen:**

1. Yr Athro Monica Busse: Mae ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd yn rhan o gonsortiwm byd-eang sydd wedi cyhoeddi'r canllaw clinigol cyntaf ar gyfer rheoli clefyd Huntington trwy ffisiotherapi.
2. Prif Ymchwilydd (CI) Yr Athro Nick Francis. Roedd yn gyd-Brif Ymchwilydd ar astudiaeth OSTRICH, a gyhoeddwyd yn y Lancet.
3. Ddydd Sadwrn 28 Medi 2019, daeth staff o unedau treialon clinigol yng Nghaerdydd, Birmingham a Southampton a ariennir gan Canser Research UK (CRUK) ynghyd i godi arian ar gyfer ymchwil sy'n achub bywydau ac i godi ymwybyddiaeth o dreialon clinigol a'u rôl hanfodol wrth ddatblygu triniaethau canser.
4. Cynrychiolwyr lleyg mewn digwyddiad lledaenu gwybodaeth PACE. Mae lledaenu gwybodaeth a rhoi adborth i'r cyhoedd, cyfranogwyr a chleifion yn bwysig er mwyn sicrhau tryloywder canlyniadau treialon.
5. Yr Athro Chris Butler, cyd-Brif Ymchwilydd astudiaeth PACE ac OSTRICH, yn cyfarfod ag aelodau'r cyhoedd yn y digwyddiad lledaenu gwybodaeth undydd.
6. Cynrychiolydd yn nigwyddiad lledaenu gwybodaeth PACE.



# Crynodeb gweithredol

## Dros y flwyddyn ddiwethaf o Ebrill 2019 i Fawrth 2020, rydym wedi cynnal ein henw da yn rhyngwladol o ran dylunio a chynnal treialon ar draws ein meysydd o ddiddordeb thematig.

Mae ein strwythur adrannol sefydledig yn golygu bod ein dulliau arloesol yn cael eu defnyddio mewn treialon ac astudiaethau eraill a ddyluniwyd yn effeithiol ym meysydd Canser, Heintiau, Llid ac Imiwnedd, Iechyd y Boblogaeth, a'r Meddwl, yr Ymennydd a Niwrowyddorau.

Rydym wedi parhau i sicrhau bod cynnwys y cyhoedd yn rhan briodol o'n holl ymchwil ac wedi parhau i feithrin partneriaethau llwyddiannus â rhannau eraill o'r seilwaith a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y GIG a gofal cymdeithasol ar draws de-ddwyrain Cymru a thu hwnt.

Rydym wedi datblygu arbenigedd penodol er mwyn cynorthwyo defnyddio data arferol mewn treialon ac wedi datblygu'r prosesau a'r systemau er mwyn sicrhau bod y data a'r samplau a gesglir trwy astudiaethau posibl ar gael ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, rydym wedi parhau i gynorthwyo arloesedd gan y GIG trwy ein Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil, a gefnogodd 117 o syniadau ymchwil a 25 o gynigion grant y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae ein cynllunio strategol a datblygu polisïau a strategaethau sy'n llywodraethu holl weithgareddau'r Ganolfan Treialon Ymchwil wedi parhau eleni. Rydym wedi parhau i ddathlu llwyddiant rhagorol gyda dyfarniadau grant cydweithredol, gan weithio gydag ymchwilwyr yn y GIG, gofal cymdeithasol, seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a diwydiant ledled Cymru, gweddill y DU ac yn rhyngwladol.

Mae cyllid seilwaith wedi'n galluogi i barhau i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi'n briodol i gyflenwi ymchwil i safonau Ymarfer Clinigol Da (GCP) ac yn cael cyfleoedd cyfartal hygyrch i gael eu datblygu a'u hyfforddi. Mae rheoli adnoddau'n effeithiol a'n llwyddiant wrth gadw a datblygu ein 161 aelod staff ymchwil a phroffesiynol medrus wedi'n helpu i sicrhau £9,855,375 o gyllid gan arianwyr cenedlaethol a rhyngwladol (cyfanswm o 30 o ddyfarniadau mawr ym meysydd thematig strategol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ymchwil Canser y DU dros y cyfnod cyllid cyfredol).

Caiff ein hymchwil o ansawdd uchel ei adlewyrchu gan fwy na 138 o gyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys papurau effaith uchel yn The Lancet, British Medical Journal (BMJ) a'r New England Journal of Medicine. Mae cynnwys y cyhoedd yn rhan greiddiol o'n rhaglen ymchwil, o ran dylunio, cynnal a lledaenu gwaith ymchwil (20 digwyddiad ymgysylltu a 2,121 o gyfleoedd i gynnwys y cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn).

Hoffem gydnabod ein harianwyr, ein partneriaid ymchwil, ein staff ac, yn fwy na dim, y rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein hastudiaethau ymchwil, na fyddai'r gwaith hwn yn bosibl hebddynt. Diolch i chi am roi o'ch amser i ddarllen am ein gwaith.

**Yr Athro Monica Busse**
Cyfarwyddwr Adran y Meddwl, yr Ymennydd a Niwrowyddorau

**Yr Athro Mike Robling**
Cyfarwyddwr Adran Iechyd y Boblogaeth

**Yr Athro Kerry Hood**
Cyfarwyddwr yr Adran Heintiau, Llid ac Imiwnedd

**Yr Athro Richard Adams**
Cyfarwyddwr yr Adran Ganser

# Rhagair

## Cenhadaeth a nodau strategol

Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn uned treialon clinigol sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd ac sydd wedi cofrestru ag UKCRC, sy'n ymrwymo i fynd i'r afael â chlefydau a phryderon iechyd mwyaf ein hoes. Rydym yn gweithio gydag ymchwilwyr i gynhyrchu tystiolaeth ymchwil ar gyfer arweinwyr polisi, comisiynwyr gwasanaethau ac ymarferwyr ynghylch triniaethau a gwasanaethau a allai wella iechyd a lles y cyhoedd.

## Partneriaid a buddiolwyr allweddol y rhaglen

Mae'r Ganolfan yn cael cyllid seilwaith gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ymchwil Canser y DU. Mae'r cyllid hwn yn ein caniatáu i fuddsoddi mewn gweithgareddau craidd sy'n ofynion hanfodol ar gyfer dylunio a goruchwylio astudiaethau o ansawdd uchel, ac ennill cyllid allanol er mwyn gallu eu cynnal, eu dadansoddi a'u cyhoeddi. Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn cynnwys ymchwilwyr allanol yn gwneud gwaith ymchwil sylfaenol mewn iechyd neu ofal cymdeithasol (neu'r ddau). Mae'r buddiolwyr posibl yn eang, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o astudiaethau ac ymchwilwyr rydym yn gweithio mewn partneriaeth â nhw. Bydd y rhain yn cynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, aelodau'r cyhoedd, darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a llunwyr polisïau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y buddiolwyr hyn yng Nghymru, gweddill y DU ac mewn gwledydd eraill y tu hwnt i'r DU.

## Pwy yw pwy?

Cyfarwyddwr CTR (a Chyfarwyddwr yr Adran Heintiau, Llid ac Imiwnedd) yw'r Athro Kerry Hood. Caiff ei chynorthwyo gan dîm uwch-reolwyr gan gynnwys yr Athro Mike Robling (Adran Iechyd y Boblogaeth), yr Athro Monica Busse (Adran y Meddwl, yr Ymennydd a Niwrowyddorau), yr Athro Richard Adams (yr Adran Ganser), yr Athro Adrian Mander (Ystadegau) a Dr Sue Channon (y Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil).

## Sut rydym yn gweithio

Mae ein 161 o ymchwilwyr a staff proffesiynol yn gweithio ar draws ein pedair adran ac o fewn timau trawsbynciol (gan gynnwys Systemau Gwybodaeth, Sicrhau Ansawdd a Materion Rheoleiddio a Gwasanaethau Proffesiynol). Mae ein portffolio ymchwil cyfredol yn cynnwys gwerthusiadau o gyffuriau ac ymyriadau gofal iechyd cymhleth, astudio mecanweithiau clefydau a thriniaethau, astudiaethau carfannau a threialon sy'n llywio polisi ac arfer iechyd a gofal cymdeithasol. Y gweithgareddau sydd wedi'u hymgorffori ar draws y meysydd gwaith hyn yw cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd, agweddau ar ofal cymdeithasol, ymgysylltu a chydweithio â meysydd masnachol/diwydiant, ymgysylltu a chydweithio proffesiynol â'r GIG, ymgysylltu â seilwaith ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a chyfathrebu, cyhoeddusrwydd a throsglwyddo gwybodaeth.

## Ein cynllun gwaith

Rydym yn rhoi pwyslais parhaus ar ddatblygu arferion gwaith a staff arbenigol i sicrhau ein bod yn cyrraedd safonau ymchwil uchel ar draws ein portffolio. Rydym yn dylunio astudiaethau newydd ac yn ennill cyllid i'w gwireddu ar y cyd ag ymchwilwyr o sefydliadau eraill ledled Cymru a thu hwnt. Cynhelir ein holl astudiaethau a ariennir i safonau ansawdd uchel sy'n cynhyrchu canlyniadau fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r cyhoedd, ac rydym yn ymdrechu i ddatblygu ffyrdd newydd o ateb cwestiynau clinigol pwysig a chynnal gweithlu dynamig a phroffesiynol. Ynghyd â hyn, rydym yn cefnogi staff yn y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddatblygu eu hymchwil eu hunain i fynd i'r afael â chwestiynau pwysig ynghylch gofal cleifion a'r cyhoedd. Yma, rydym yn arddangos ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf yn ein holl adrannau o fewn y Ganolfan Treialon Ymchwil.

UKCRC Registered Clinical Trials Units

# Cyfarwyddwyr y Ganolfan Treialon Ymchwil



Yr Athro Kerry Hood,
Cyfarwyddwr y Ganolfan Treialon Ymchwil a'r Adran Heintiau, Llid ac Imiwnedd



Dr Sue Channon,
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil De-ddwyrain Cymru



Yr Athro Mike Robling,
Cyfarwyddwr Adran Iechyd y Boblogaeth



Yr Athro Monica Busse,
Cyfarwyddwr Adran y Meddwl, yr Ymennydd a Niwrowyddorau



Yr Athro Richard Adams,
Cyfarwyddwr yr Adran Ganser



Yr Athro Adrian Mander,
Cyfarwyddwr Ystadegau Meddygol

# Adrannau'r Ganolfan Treialon Ymchwil

- Heintiau, llid ac imiwnedd
- Y meddwl, yr ymennydd, a niwrowyddorau
- Canser
- Iechyd y boblogaeth

## Pecynnau Gwaith

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cefnogi tair o'n hadrannau, ac mae Ymchwil Canser y DU yn cefnogi'r Adran Ganser; mae'r ddau ariannwr yn darparu cyllid craidd i dimau trawsbynciol sy'n gweithio ar draws pob adran. Er mwyn adrodd i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, rydym yn trefnu ein gwaith ar draws chwe phecyn gwaith yn y modd canlynol. Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r graffeg hyn yn amlygu ac yn cyflwyno pob adran i chi:

**PECYN GWAITH 1:** Rheoli ein gwaith

**PECYN GWAITH 2:** Cydweithio â grwpiau eraill

**PECYN GWAITH 3:** Datblygu astudiaethau newydd

**PECYN GWAITH 4:** Goruchwylio astudiaethau a ariennir

**PECYN GWAITH 5:** Sicrhau datblygiad methodolegol a phroffesiynol

**PECYN GWAITH 6:** Cefnogi arloesedd gan y GIG ac ymarfer gofal cymdeithasol

### Themâu trawsbynciol

Ar ddechrau pob pecyn gwaith trwy gydol yr adroddiad, gwelwch eiconau sy'n cynrychioli ein chwe thema drawsbynciol isod. Nod hyn yw amlygu'r ffordd y mae ein gwaith wedi cael effaith ehangach ar draws y GIG, diwydiant, gofal cymdeithasol, o fewn Llywodraeth Cymru ac ar gyfer y cyhoedd. Rydym yn gobeithio y bydd hon yn ffordd syml a hawdd o lywio'r adroddiad.

- Cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- Gofal cymdeithasol
- Ymgysylltu a chydweithio â'r GIG
- Ymgysylltu a chydweithio â meysydd masnachol/diwydiant
- Ymgysylltu â seilwaith ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- Cyfathrebu, cyhoeddusrwydd a throsglwyddo gwybodaeth

# Ein blwyddyn mewn rhifau...

Ebrill 2019 hyd fis Mawrth 2020

Rydym yn uned dreialon clinigol gofrestredig a'r grŵp mwyaf o staff treialon clinigol academaidd yng Nghymru.

## Cynyddu adnoddau ymchwil yng Nghymru

Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn cael ei hariannu'n gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ymchwil Canser y DU. Mae hyn yn galluogi ymchwil gymhwysol sy'n llywio polisi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnal astudiaethau ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gefnogi ac i gynyddu adnoddau ymchwil, yn enwedig yng Nghymru.

## Yma, rydym yn tynnu sylw at rai o'n cyflawniadau a'u heffaith dros y 12 mis diwethaf.

**161**
o staff y Ganolfan Ymchwil Treialon

**138**
o bapurau wedi eu cyhoeddi

**2,121**
o bobl yn bresennol mewn digwyddiadau

**30**
o grantiau newydd wedi'u dyfarnu

**1,159**
o gyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

**20**
o weithgareddau ymgysylltu a lledaenu gwybodaeth

Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd
**£9,855,375**


# PECYN GWAITH 1:
## Rheoli ein gwaith

Recriwtio a chefnogi staff, a datblygu arferion gwaith i sicrhau ein bod yn bodloni safonau uchel ar gyfer gwaith ymchwil.









## Gwobrau Dathlu Rhagoriaeth Prifysgol Caerdydd 2019

Enwebwyd Grŵp Iechyd a Lles y Ganolfan Treialon Ymchwil ar gyfer Gwobr Dathlu Rhagoriaeth yn y categori “Rhagoriaeth mewn Cyfraniad Gwirfoddol”. Dyma grŵp o staff sy’n cyfrannu at hybu lles cadarnhaol ar draws y Ganolfan – ac mae’r enwebiad hwn yn oherwydd eu gwaith caled.

## Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Pwyllgor Gweithredol

Roedd diwrnod cwrdd i ffwrdd y pwyllgor gweithredol ddiwedd Ionawr 2020 yn gyfle i fyfyrio ar yr hyn a oedd wedi gweithio’n dda yn ystod y cyfnod ariannu blaenorol, a pha newidiadau y gallai fod eu hangen er mwyn symud y Ganolfan ymlaen wrth i ni barhau i dyfu ac esblygu (161 o staff adeg ysgrifennu’r adroddiad blynyddol hwn). Gwnaethom ganolbwyntio’r drafodaeth ar dri maes a amlygwyd yn yr arolwg staff (cyfathrebu mewnol, llwyth gwaith, a dysgu a datblygu). Arweiniodd hyn at gyfres o gamau gweithredu a chynlluniau y gwnaethom eu rhannu â’r grŵp staff cyfan ar draws llwyth gwaith, cyfathrebu a rheolaeth linell.

Mae gan bob cam gweithredu arweinydd o fewn y Grŵp Gweithredol ac amserlen ar gyfer ei archwilio ac/neu ei roi ar waith dros y flwyddyn nesaf.

## Grwpiau Gorchwyl a Gorffen


Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw grŵp sy’n cael ei sefydlu fel is-grŵp o grŵp prosiect mwy, sy’n edrych yn benodol ar un eitem y mae angen ei chyflawni.

## Grŵp Gorchwyl a Gorffen Sefydlu Treialon

Gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen sefydlu treialon argymhellion i’r Grŵp Gweithredol i ddefnyddio dull mwy seiliedig ar risg ar gyfer adolygiadau Sicrhau Ansawdd o ddogfennau treialon. Cefnogwyd yr argymhellion hyn ac mae’r grŵp gorchwyl a gorffen wrthi’n goruchwylio’r gwaith o gwblhau camau gweithredu amrywiol er mwyn rhoi hyn ar waith.

## Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dyfeisiadau Meddygol

Gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen dyfeisiadau meddygol argymhellion a gefnogwyd gan y Grŵp Gweithredol yn y cyfarfod diwethaf. Nododd y grŵp mai dim ond nifer fechan o staff CTR sydd â rhywfaint o brofiad o sefydlu treialon dyfeisiadau ar hyn o bryd ac, â’r newidiadau a’r rheoliadau, a’r sbectrwm eang o dreialon posibl dan y faner dyfeisiadau meddygol, mae’n gall rhannu gwybodaeth a datblygu arbenigedd yn y maes hwn.





## Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)

Nodwyd yr angen i wella ein prosesau ar gyfer cyflwyno hyfforddiant ar Weithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP) drwy archwiliad diweddar. Gofynnodd y Grŵp Gweithredol i grŵp gorchwyl a gorffen wneud argymhellion ar gyfer hyn ac adrodd yn ôl.

## Archwiliad GIG Digidol Llwyddiannus

Cawsom archwiliad allanol llwyddiannus gan GIG Digidol, sef prif gyflenwr data clinigol rheolaidd ar gyfer nifer o astudiaethau CTR. Roedd hwn yn archwiliad rheolaidd o'r Cytundeb Rhannu Data ar gyfer astudiaeth Building Blocks 2, ac roedd yn cynnwys nid yn unig CTR ond SAIL (Abertawe) hefyd, sy'n darparu lle diogel ar gyfer data'r astudiaeth. Dyma'r tro cyntaf mae CTR wedi'i harchwilio gan GIG Digidol, a rhoddodd yr archwiliad sicrwydd canolig. Mae CTR a SAIL wedi cadarnhau cynllun gweithredu ac maent yn rheoli'r Camau Gweithredu Cywirol ac Ataliol (CAPA) a godwyd i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac arsylwadau'r archwilydd. Rydym yn fodlon â chanlyniad yr archwiliad, a fu'n brofiad datblygiadol defnyddiol i dîm Caerdydd. Mae hyn wedi adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd gan weithgor yn CTR, a fu'n datblygu systemau i weithio â data rheolaidd (er enghraifft gweithio â'r Pecyn Cymorth Diogelwch a Diogelu Data newydd).

## Datblygu Systemau Gwybodaeth a Chronfeydd Data

Mae Pwyllgor Gweithredol y Ganolfan wedi cymeradwyo ymarfer cwmpasu i nodi'r technolegau a'r rolau a chyfrifoldebau sydd eu hangen i alluogi'r tîm Datblygu Systemau Gwybodaeth a Chronfeydd Data i gefnogi treialon ac astudiaethau'n well yn y dyfodol. Bydd yr ymarfer hwn yn edrych ar y 5 i 10 mlynedd nesaf ac yn ystyried meddalwedd glinigol newydd a'r offer gorau i gasglu data ffitrwydd a gweithgarwch ar gyfer ymchwil.

Mae'r tîm Datblygu Systemau Gwybodaeth a Chronfeydd Data wedi recriwtio Rheolwr Atebion Technoleg hefyd, a fydd yn brif gyswllt â TG y Brifysgol ac yn canolbwyntio ar sut gall technoleg gefnogi ein hymchwil yn well. Mae hyn yn arbennig o amserol â'r symudiad cyflym i staff yn gweithio gartref ar ddechrau'r pandemig COVID-19.

## Arolygiad yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

Ar y cyd â Banc Canser Cymru Prifysgol Caerdydd, buom yn destun arolygiad swyddogol gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol i adolygu prosesau yn ymwneud â samplau a gasglwyd gan gleifion yn ein hastudiaethau. Mae'r samplau hyn yn ffurfio ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth wrth eu cysylltu â'r data a gasglwyd am unigolion, ac maent yn helpu i optimeiddio cyfleoedd ymchwil yn ogystal â chydweithio allanol, gan roi'r wyddoniaeth orau ar waith. Mae'r arolygiad wedi ein galluogi i ddatblygu a mireinio ein prosesau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

## Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Cadarnhaodd Canolfan Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Ganolfan Treialon Ymchwil bolisi newydd y Ganolfan, sydd bellach yn cynnwys Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd. Ochr yn ochr â hyn, lluniwyd templed newydd ar gyfer cynllunio cynnwys y cyhoedd i arbrofi ag ef â thimau astudiaethau. Bwriedir i hyn gynorthwyo timau i ddatblygu eu cynlluniau penodol eu hunain i gynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd y ganolfan ei hun a'i pholisi newydd yn cael eu lansio'n ffurfiol â CTR yn gynnar yn yr hydref.

Bu cynrychiolwyr lleyg ein canolfan (Sarah Peddle, Susan Campbell) yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyfrannu at Adroddiad Blynyddol newydd y Ganolfan, drwy gydweithio'n agos â'n Huwch-swyddog Cyfathrebu. Cyn bwysiced â hynny, mae'r ddwy ohonynt wedi ein helpu i baratoi ein cynnig ailgomisiynu i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Gyda'i gilydd, llywiodd y Ganolfan y datganiadau a gynhwyswyd yn y cyflwyniad, gan gynnwys y cynlluniau strategol ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd dros y pum mlynedd nesaf. Roeddem yn ddiolchgar iawn i Sarah hefyd, a ymunodd ag aelodau eraill o'r tîm ymgeiswyr yn y cam cyfweliadau ym mis Mehefin.

Cynhaliodd ymchwilwyr Caerdydd yng nghydweithrediad PARC weithdy cynnwys cleifion a'r cyhoedd ar y cyd yn Llundain (a fynychwyd gan randdeiliaid elusennau a chynrychiolwyr cleifion) fel rhan o gamau terfynol gweithgareddau'r grant datblygu rhaglenni a ariennir gan Grantiau Rhaglenni ar gyfer Ymchwil Gymhwysol (PGfAR) y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd (NIHR). Mae hyn wedi arwain at gyflwyno cais am grant rhaglen cam 1 i Grantiau Rhaglenni ar gyfer Ymchwil Gymhwysol y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd.

Cynhaliodd tîm DOMINO-HD gyfarfod Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd yn Amsterdam â chynrychiolwyr o Norwy, y Swistir, Gwlad Pwyl, Sbaen a'r Almaen. Mae DOMINO-HD wedi rhoi model Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd ar waith a fydd yn cynnwys aelodau'r ganolfan yn cysylltu â rhanddeiliaid yn eu gwledydd perthnasol. Mae'r ganolfan Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd yn cael ei chefnogi trwy Gymdeithas Huntington Ewrop.

### Llyfryn y Prif Ymchwilydd





I ategu modelau gweithio mwy tryloyw ag ymchwilwyr allanol, rydym wedi cadarnhau llyfryn newydd y Ganolfan i brif ymchwilwyr yn ddiweddar, sydd ar gael ar ein gwefan. Mae'r llyfryn hwn yn disgrifio rôl a chyfansoddiad y Ganolfan, a sut mae'n bwriadu gweithio ag ymchwilwyr. Mae'n amlinellu cyfrifoldebau nodweddiadol y Ganolfan ac Ymchwilwyr wrth ddylunio, cynnal ac adrodd ar astudiaethau. Bydd y llyfryn hwn ar gael ar ein gwefan ac i'w ddefnyddio mewn trafodaethau ag ymchwilwyr ar ddechrau ceisiadau newydd am gyllid. Mae hyn yn rhan o strategaeth i gefnogi datblygiad ymchwilwyr newydd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Gwnaethom greu fideos animeiddiedig newydd hefyd fel ffordd i ymgysylltu â'r cyhoedd ac esbonio'r hyn rydym yn ei wneud.



# PECYN GWAITH 2:
## Cydweithio â grwpiau eraill

**Cydweithio ag ymchwilwyr o sefydliadau eraill ledled Cymru a thu hwnt**



## Uned yr Ymennydd (BRAIN)

Fel rhan o gydweithio CTR ag Uned yr Ymennydd (drwy gyflwyno treial TRIDENT ac ystod o dreialon therapi ymwthiol eraill), aeth cynrychiolwyr i gyfarfod lansio gweithgor Therapïau Datblygedig Rhwydwaith Clefyd Huntington Ewrop yn Barcelona ym mis Medi. Mae hwn yn weithgor sy'n dod â grŵp amrywiol o gyfranwyr ynghyd, gan gynnwys niwrolegwyr, niwrolawfeddygon, gweithwyr a darparwyr gofal iechyd, gwyddonwyr a phartïon eraill â buddiant o fyd addysg a diwydiant i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth, eang ac amlgydrannol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo sylweddau a chelloedd i'r ymennydd at ddibenion therapiwtig. Rydym yn cael ein cynrychioli ar bwyllgor gweithredol SC4HD (Bôn-gelloedd ar gyfer Clefyd Huntington), sef menter fyd-eang sydd â'r genhadaeth i ddiffinio a chyhoeddi canllawiau ar gyfer profion cyn-glinigol a datblygiad clinigol therapïau celloedd i'w trawsblannu i'r ymennydd i drin Clefyd Huntington.

## TRIDENT

Mae TRIDENT (sy'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth ag Uned yr Ymennydd Cymru) yn enghraifft unigryw o'r heriau methodolegol a gweithredol niferus sy'n cael eu hwynebu mewn treialon o faes newydd, tra arbenigol o gyflwyno'n uniongyrchol i'r ymennydd. Mae ein dyluniad yn cynnwys defnyddio'r treial mewn carfan a ddatblygwyd i fynd i'r afael â llawer o'r cyfyngiadau sy'n gynhenid mewn gweithgareddau cynnar tebyg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi symud ymlaen i ennill pob cymeradwyaeth reoleiddio i agor pob cam o dreial TRIDENT. Roedd y llawdriniaeth gyntaf wedi'i threfnu ar gyfer 17 Mawrth 2020. Gwnaethom gwblhau 5 o'r asesiadau 12 mis â'r rhai a recriwtiwyd i'r garfan arsylwadol hefyd. Yn anffodus, ni fu'n bosibl cwblhau hyn oherwydd COVID-19; fodd bynnag, mae pob agwedd ar waith i'r tîm gwblhau'r llawdriniaeth hon cyn gynted ag y bo modd.

## Cydweithio ag Unedau Treialon Clinigol eraill

Bu cydweithio ag ystod o unedau treialon clinigol ledled y DU yn rhan bwysig o'n strwythur erioed a, thrwy wneud hynny, credwn ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ddatblygu a chyflwyno astudiaethau academaidd a threialon clinigol. Mae gennym gysylltiadau penodol ychwanegol â'n chwaer unedau treialon clinigol yng Nghymru a ariennir drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a'r rhai yn y DU a ariennir drwy Ymchwil Canser y DU. Fel rhan o'r gwaith cydweithredol hwn, rydym wedi rhannu arbenigedd cronfeydd data (treialon Lewcemia Myeloid Acíwt) ac wedi cydweithio ar ddatblygu treialon â chyllid llwyddiannus. Rydym wedi rhannu ein gweithdrefnau gweithredu safonol o ansawdd uchel. Ym Medi 2019, gwnaethom arwain beicathon 80 milltir â'n chwaer unedau treialon clinigol Ymchwil Canser y DU yn Southampton a Birmingham i godi ymwybyddiaeth o dreialon clinigol a chodi arian ar gyfer Ymchwil Canser y DU.



Beicathon noddedig Ymchwil Canser y DU â chydweithwyr o unedau treialon clinigol eraill.

## Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau

Roedd Dr Jeremy Segrott yn rhan o gyfarfod ymgynghori anffurfiol yn Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau i drafod ei llawlyfr newydd i lunwyr polisïau ar ymgysylltu â phobl ifanc i atal camddefnyddio sylweddau. Roedd hwn yn gyfle i ddysgu oddi wrth grŵp rhyngwladol o bobl ifanc am ei bwysigrwydd iddyn nhw a ffyrdd o weithio.

BRAIN
Repair & Intracranial Neurotherapeutics

TRIDENT



## Ymateb i COVID-19

Mae staff yn y Ganolfan Treialon Ymchwil yn cydweithio ag ymchwilwyr ledled y DU i ddatblygu dealltwriaeth well o effaith COVID-19 ar feichiogrwydd, ynghyd ag agwedd y cyhoedd tuag at y cyfnod clo a'i brofiadau ohono.


Mae ein Hadran Ganser, dan arweiniad yr Athro Richard Adams, wedi gorfod rhoi'r gorau i recriwtio i nifer o dreialon canser am y tro, er mwyn diogelwch cleifion a staff meddygol. Rydym yn gweithio i ailddechrau'r gweithgareddau hyn yn gyflym ac yn datblygu astudiaethau i ddeall yn well effaith y pandemig hwn ar ddiagnosisau canser a chleifion canser.

Bu staff ar draws y Ganolfan yn gweithio ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflwyno treialon â blaenoriaeth mewn COVID-19 ledled y DU hefyd, gan gynnwys Treial Brechlyn Rhydychen, a ddechreuodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym Mai 2020.

Mae llawer o'r gweithgarwch hwn wedi digwydd ar ddiwedd cyfnod adrodd 2019-2020, ac edrychwn ymlaen at rannu diweddariadau rheolaidd â chi ar Twitter, mewn blogiau, drwy ddatganiadau i'r wasg a thrwy gyhoeddi newyddion ar ein gwefan – yn ogystal ag yn adroddiad blynyddol 2020-2021.

# PECYN GWAITH 3:
# Datblygu astudiaethau newydd

**Dylunio astudiaethau newydd ac ennill y cyllid i'w rhoi ar waith**



# Yr Adran Ganser

Rydym wedi sefydlu nifer o brosiectau cydweithredol newydd â Phrif Ymchwilwyr o Fanceinion, Rhydychen, y Coleg Imperial ac Ysbyty Brenhinol Marsden, a gwyddonwyr ym maes delweddu (Canolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC)) a datblygu biofarcwyr ar gyfer profion imiwnosugnol sy'n gysylltiedig ag ensymau (ELISA) (Manceinion), ac wedi parhau i ddatblygu treialon ar gyfer myeloma, canser serfigol, canser yr ofari, canser yr ymennydd, sarcoma a chanser y pancreas. Rydym wedi cefnogi ceisiadau am gyllid gan ddefnyddio ein harbenigedd a'n gwybodaeth o unedau treialon clinigol eraill, gan gynnwys Leeds, Rhydychen a Birmingham.

Gwnaethom gefnogi datblygiad amlddisgyblaethol y rhaglen Oelixir (dan arweiniad Caergrawnt) mewn canser yr oesoffagws â mewnbwn i dreialon clinigol, ac rydym yn parhau i ddatblygu treial a oedd yn gysylltiedig â'r cynnig hwn yn wreiddiol, ac a sgoriodd yn uchel iawn o ran adborth.

## CONSCOP2

*Hapdreial rheoledig o golonosgopi wedi'i loywi gan gyferbynnedd i leihau canser y coluddyn ar yr ochr dde.*

**Prif Ymchwilydd:** Dr Sunil Dolwani

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Hapdreial rheoledig a ariennir, gwerth £2.1m, o brawf colonosgopig ar gyfer canser y coluddyn. Bu'r astudiaeth hon yn esblygiad naturiol o astudiaeth dichonolrwydd llwyddiannus CONSCOP, ac mae'n dod ag ystod eang o ymchwilwyr ynghyd sy'n gweithio o fewn a'r tu allan i'r GIG. Y nod yw dechrau'r treial yn 2020. Rydym eisoes wedi cyflwyno ceisiadau i ariannu cysyniadau ymchwil ychwanegol yn yr astudiaeth hon, gan gysylltu â phartneriaid diwydiannol a Deallusrwydd Artiffisial.

## FAKTION

*Treial rheoledig cam 1b/2 o fulvestrant +/- AZD5363 mewn menywod y mae eu mislif wedi dod i ben sydd â chanser datblygedig ar y fron a driniwyd ag atalydd aromatase trydedd genhedlaeth gynt.*

**Prif Ymchwilwyr:** Dr Robert Jones a Dr Sacha Howell

**Arianwyr:** Cancer Research UK and AstraZeneca

Rhannwyd y data o'r astudiaeth hon ag Astra Zeneca i lywio'r gwaith o ddatblygu treial cam III newydd, dan arweiniad y diwydiant.

## TIC-TOC

*Ymgyrch Gymunedol Ddwys wedi'i Thargedu i Optimeiddio Ymwybyddiaeth o Ganser*

**Prif Ymchwilydd:** Dr Grace McCutchan

**Ariannwr:** Ymchwil Canser Cymru

Astudiaeth dichonoldeb o ymgyrch ymwybyddiaeth o symptomau i gefnogi'r llwybr atgyfeirio Amlddisgyblaeth/Canolfan Diagnostig Cyflym mewn ardal o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, gan fanteisio i'r eithaf ar gryfderau'r uned treialon clinigol gydweithredol newydd drwy elwa ar gryfderau adran iechyd y boblogaeth ac adran ganser y Ganolfan Treialon Ymchwil.

Dyfarnwyd 26 mis o gyllid i TIC-TOC gan Ymchwil Canser Cymru. Mae'r astudiaeth yn gwerthuso ymgyrch gymunedol ddwys wedi'i thargedu i optimeiddio ymwybyddiaeth o symptomau canser. Bwriedir i'r gwaith hwn gefnogi gwaith llwybrau atgyfeirio amlddisgyblaethol / y Ganolfan Diagnostig Cyflym sy'n cael eu cyflwyno i hwyluso asesiadau cleifion sydd â symptomau canser amwys.

## VALTIVE 1

*Astudiaeth dichonolrwydd biofarcwyr integredig â dulliau cymysg.*

**Prif Ymchwilydd:** Yr Athro Gordon Jayson

**Ariannwr:** Ymchwil Canser y DU

Bydd y cydweithrediad hwn, sy'n werth £1.1m, â Phrifysgol Manceinion, a ariennir gan Ymchwil Canser y DU, yn asesu dichonolrwydd ac yn helpu i ddilysu biofarciwr newydd TIE2, sydd wedi'i lunio'n farciwr rhagfynegol ar gyfer cyffuriau gwrth-ganser sy'n effeithio ar gyflenwad gwaed tiwmorau, fel bevacizumab. Bydd yr astudiaeth yn coladu samplau gwaed cyfresol gan gleifion â chanser yr ofari, a bydd yn arwain at astudiaeth dirwyn i ben ar hap os yw'n llwyddiannus. Yr hyn sy'n allweddol i'r astudiaeth yw darn o waith ansoddol i asesu dealltwriaeth o strategaeth debyg a'i derbynioldeb ymhlith cleifion sy'n cael cemotherapi llinell.

## Yr Adran Heintiau, Llid ac Imiwnedd

### PRONTO

*Gwerthusiad o Procalcitonin a NEWS i adnabod sepsis mewn pryd a'r defnydd gorau o wrthfiotigau yn yr Adran Achosion Brys.*

**Prif Ymchwilydd:** Yr Athro Enitan Carrol

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Bydd y Ganolfan Treialon Ymchwil yn cydlynu treial i edrych ar y defnydd o wrthfiotigau mewn sepsis.

Mae sepsis yn gymhlethdod haint sy'n gallu bygwth bywyd, ac amcangyfrifir bod 52,000 o bobl yn y DU yn marw o ganlyniad iddo bob blwyddyn.

Mae'r driniaeth orau'n cynnwys ei adnabod yn gynnar, rhoi gwrthfiotigau mewn da bryd a hylifau.



Tîm astudiaeth PRONTO

Bydd y treial gwerth £2 miliwn yn edrych ar asesu sepsis mewn achosion brys ac a oes gormod o wrthfiotigau'n cael eu rhagnodi, y mae arbenigwyr yn dweud ei fod yn ffactor sylweddol sy'n arwain at fwy o ymwrthedd gwrthficrobaidd.

## Adran y Meddwl, yr Ymennydd a Niwrowyddorau

### STORM

*STanding up fOR Myself.*

**Prif Ymchwilydd:** Katrina Scior

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Ymyrraeth grŵp seicogymdeithasol STORM i bobl ifanc ac oedolion ag anableddau deallusol. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ein portffolio datblygol o ymchwil i anableddau deallusol (NIHR PHR, £624,000).

### TAPERS

*Trin Gorbryder i Atal Ail Bwl o Seicosis (Treating Anxiety to PrevEnt Relapse in pSychosis).*

**Prif Ymchwilwyr:** Yr Athro Jeremy Hall a'r Athro James Walters (Prifysgol Caerdydd)

**Ariannwr:** Cynllun Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (RfPPB: £229,865)

Prif nod treial dichonolrwydd TAPERS yw darganfod p'un a yw ychwanegu meddyginiaeth gwrth-iselder at driniaeth arferol mewn seicosis cynnar yn ddichonol ac yn dderbyniol i gleifion.

Yn y tymor hwy (h.y. mewn treial diweddarach, mwy os yw'r treial hwn yn ddichonol), byddwn hefyd yn edrych ar b'un a yw hyn yn lleihau cyfraddau ailwaelu.

### ZIPPY'S Friends

**Prif Ymchwilydd:** Dr Biza Stenfert-Kroese

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Rhaglen i blant yw Zippy's Friends, sy'n rhoi cefnogaeth ar gyfer anawsterau cymdeithasol ac emosiynol ac sy'n cael ei defnyddio'n eang (ac y dangoswyd ei bod yn effeithiol) mewn ysgolion prif ffrwd. Erbyn hyn, mae'r rhaglen wedi'i haddasu i blant (9-11 oed) mewn ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (AAAA). Nod yr astudiaeth yw penderfynu ar ddichonolrwydd cynnal treial rheoledig yn y dyfodol i ddarganfod effaith y rhaglen addasedig ar iechyd meddwl, ymddygiad, gweithrediad emosiynol a chymdeithasol, ansawdd bywyd, a'i chost effeithiolrwydd (gwerthusiad economaidd). Cynhelir ar y cyd â'r Ganolfan Treialon Ymchwil (NIHR PHR, £553,071).

## Adran Iechyd y Boblogaeth

### SaFE

*Ymyrraeth iechyd rhywiol a pherthnasoedd iach ar gyfer Addysg Bellach.*

**Prif Ymchwilydd:** Honor Young

Optimeiddio, profi dichonolrwydd a hapdreial peilot o SaFE. Ionawr 2020 – Ebrill 2022. NIHR PHR, £510,815. Mae'r Prif Ymchwilydd yn Brif Ymchwilydd am y tro cyntaf, wedi'i mentora gan Dr James White. Caiff yr astudiaeth ei chynnal mewn partneriaeth â DECIPHer.



# PECYN GWAITH 4:
## Goruchwylio astudiaethau a ariennir

**Cynnal astudiaethau o ansawdd uchel a chynhyrchu allbynnau fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r cyhoedd**



# Yr Adran Ganser

## FAKTION

*Treial cam 1b/2 wedi'i reoli â phlasebo o fulvestrant +/- AZD5363 mewn menywod y mae eu mislif wedi dod i ben sydd â chanser datblygedig ar y fron a driniwyd ag atalydd aromatase trydedd genhedlaeth gynt.*

**Prif Ymchwilwyr:** Dr Robert Jones a Dr Sacha Howell

**Arianwyr:** Ymchwil Canser y DU ac AstraZeneca

Cyhoeddwyd FAKTION yn The Lancet Oncology. Mae data o'r treial yn cael ei drwyddedu i'w gyflwyno i Weinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau'r U.D. (FDA) i'w drwyddedu.

Mae'r astudiaeth hon wedi cael effaith sylweddol, a thrwyddedwyd data i Astra Zeneca i gefnogi trwyddedu AZD5363 gan FDA. Derbyniwyd y canlyniadau ar ffurf cyflwyniad llafar yn symposiwm Canser y Fron Cymdeithas Oncoleg Glinigol America (ASCO), ac mae wedi cael sylw sylweddol yn y cyfryngau, ac mae'n debygol o gael ei drwyddedu at y defnydd hwn.

Gallai miliynau o gleifion â chanser y fron nad oes modd ei wella elwa ar ymchwil a arweiniwyd yng Nghymru a gyflwynwyd yng Nghyfarfod Blynyddol ASCO yn Chicago ar 4 Mehefin.



Cyflwynodd Adran Ganser y Ganolfan Treialon Ymchwil a'r Prif Ymchwilwyr FAKTION yng Nghyfarfod Blynyddol Cymdeithas Oncoleg Glinigol America (ASCO) yn Chicago ar 4 Mehefin 2019.

Mae ymchwil FAKTION yn dangos, trwy gyfuno therapi ymchwiliadol â thriniaeth safonol, y gall cleifion ddisgwyl y bydd eu canser yn cael ei reoli am ddwywaith yr amser.

Mae FAKTION yn cynnwys 140 o gleifion o 19 ysbyty ledled y DU, ac fe'i noddir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Caiff ei arwain ar y cyd gan Dr Rob Jones o Ganolfan Ganser Felindre a Phrifysgol Caerdydd, a Dr Sacha Howell o Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Christie a Phrifysgol Manceinion.

## ABACUS 3

**Prif Ymchwilydd:** Yr Athro Kate Brain

**Ariannwr:** Yorkshire Cancer Research

Cwblhawyd dadansoddiadau o ABACUS 3 a chânt eu cyflwyno i Ymchwil Canser Swydd Efrog yn rhan o gynnig gweithredu ABACUS 4. Astudiaeth atal canser oedd ABACUS 3, a luniwyd i gynyddu ymwybyddiaeth o symptomau canser ymhlith pobl hŷn o ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, a'u hannog i fynd at eu meddyg yn gynnar.

## ROCS

*Radiotherapi ar ôl rhoi Stent ar gyfer Canser yr Oesoffagws (Radiotherapy after Oesophageal Cancer Stenting).*

**Prif Ymchwilwyr:** Dr Douglas Adamson a Dr Anthony Byrne

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Cyflwynwyd adroddiad ROCS ac mae ganddo'r potensial i gael effaith o ran newid arfer i leihau baich ychwanegol radiotherapi lliniarol ar ôl gosod stent yn yr oesoffagws. Mae ROCS wedi dangos y diffyg budd sylweddol o ychwanegu radiotherapi ar yr oesoffagws ar gyfer cleifion sydd â chanser yr oesoffagws anwelladwy ac sydd wedi cael stent.

# Yr Adran Heintiau, Llid ac Imiwnedd

## PACE

*Defnydd Meddygon Teulu o Brawf Pwynt Gofal Protein C-Adweithiol i helpu i dargedu rhagnodi gwrthfiotigau i gleifion sydd â Gwaethygiadau Aciwt o Glefyd Pwlmonaidd Rhwystrol Cronig (COPD) sy'n fwyaf tebygol o elwa.*

**Prif Ymchwilwyr:** Yr Athro Chris Butler a'r Athro Nicholas Francis

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Mae PACE yn gyhoeddiad allweddol, a gyhoeddwyd yn New England Journal of Medicine. Roedd PACE yn ymchwilio i'r defnydd o brawf pwynt gofal i reoli cleifion COPD sy'n mynd at ofal sylfaenol ar ôl i'w cyflwr waethygu. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod rhagnodi gwrthfiotig dan arweiniad protein C-adweithiol ar gyfer pyliau gwael o COPD mewn clinigau gofal sylfaenol yn lleihau defnydd cofnodedig cleifion o wrthfiotigau a chlinigwyr yn rhoi gwrthfiotigau heb dystiolaeth o niwed. Cynhaliodd tîm PACE ddigwyddiad lledaenu gwybodaeth yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym mis Mehefin, a fynychwyd gan Lywodraeth Cymru a llunwyr polisïau'r DU, ynghyd â grwpiau rhanddeiliaid clinigol, diwydiannol a chynrychiolwyr cleifion.

Gall prawf gwaed pigiad bys syml helpu i atal rhoi gwrthfiotigau diangen i bobl â chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD).

Gyda chyllid gan y Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol (NIHR), dangosodd y tîm bod llai nag 20% o bobl yn defnyddio gwrthfiotigau ar gyfer pyliau o COPD o ganlyniad i ddefnyddio prawf gwaed pigiad bys CRP. Yn bwysicaf oll, ni chafodd y gostyngiad hwn mewn defnydd o wrthfiotigau effaith negyddol ar wellhad cleifion dros y pythefnos cyntaf ar ôl eu hymgynghoriad mewn meddygfa, nac ar eu lles neu ddefnydd o wasanaethau gofal iechyd dros y chwe mis dilynol.

Gallai gostwng y defnydd o wrthfiotigau yn ddiogel yn y modd hwn helpu i rwystro'r ymwrthedd i wrthfiotigau.



"Mae gweithio gyda'r Ganolfan Treialon Ymchwil wedi fy ngalluogi i gynnal treialon o'r radd flaenaf, a chyhoeddi fy ngwaith yn y Lancet a'r New England Journal of Medicine. Mae tîm o arbenigwyr mewn Uned Treialon Clinigol yn hwyluso'r gwaith o gynnal treialon i safon uchel iawn, sy'n golygu bod pob agwedd ar astudiaeth yn cael ei rheoli'n gadarn, yn cydymffurfio ac yn dilyn yr arfer gorau. Mae cael y grŵp amrywiol o arbenigwyr sydd eu hangen i gyflawni treialon o ansawdd uchel i gyd yn yr un lle yn golygu bod astudiaethau'n llawer mwy tebygol o gael eu cynnal yn effeithlon, yn amserol, ac i'r safonau rhyngwladol uchaf."

Yr Athro Chris Butler, Prifysgol Rhydychen

## Sêl ynteu Farnais?

**Prif Ymchwilydd:** Yr Athro Ivor Chestnutt

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Enillodd yr Athro Ivor Chestnutt o'r Ysgol Deintyddiaeth, Prifysgol Caerdydd, wobr y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Ymchwil Ddeintyddol (IADR) yn 2019 am y papur gorau a gyhoeddwyd yn y *Journal of Dental Research*.

Enillodd wobr fawreddog William J. Gies yn y categori ymchwil glinigol am ei astudiaeth 'Sêl ynteu Farnais?'.




Yn y llun mae'r Athro Chesnutt (trydydd o'r chwith) yn derbyn y wobr gan yr Athro Rena D'Souza, Llywydd y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Ymchwil Ddeintyddol, yr Athro William Giannobile, Golygydd y *Journal of Dental Research*, a'r Athro Maria E. Ryan, Llywydd Cymdeithas America ar gyfer Ymchwil Ddeintyddol.

Gwnaeth yr astudiaeth, a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, drin mwy nag 800 o blant naill ai â sêl tyllau neu farnais fflworid i weld pa driniaeth yr un mwyaf effeithiol ac yn cynnig y gwerth gorau am arian ar gyfer plant rhwng 6 a 7 oed.

Canfu'r tîm fod rhoi farnais fflworid ar ddannedd plant yr un mor effeithiol ar gyfer atal pydredd dannedd â'r dull amgen o selio dannedd, ac y gallai arbed arian i'r GIG.

## Astudiaeth BATHE yn ennill Gwobr Papur Ymchwil y Flwyddyn 2019

Cydnabuwyd ein hanes o gynhyrchu allbynnau o ansawdd uchel fel y tîm a enillodd wobr Papur Ymchwil y Flwyddyn yng Nghynhadledd Flynyddol Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) 2019. Fe'i dyfarnwyd i'r Athro Miriam Santer o Brifysgol Southampton ar gyfer papur BMJ ar astudiaeth BATHE, a ganfu nad yw rhoi ychwanegion meddalhaol mewn bath yn cynnig unrhyw fantais o gymharu â dulliau rheoli safonol.

Ariannwyd yr astudiaeth gan Raglen Asesu Technoleg Iechyd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd (NIHR), ac fe'i cynhaliwyd â Dr Matthew Ridd o'r Ganolfan Gofal Sylfaenol Academaidd, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Treialon Ymchwil a Phrifysgol Nottingham.

## AZTEC

*Mae astudiaeth therapi Azithromycin ar gyfer Clefyd Cronig yr Ysgyfaint Cynamserol (AZTEC) yn dreial clinigol cenedlaethol sy'n ymchwilio i b'un a all y gwrthfiotig azithromycin wella canlyniadau'r ysgyfaint mewn babanod cynamserol sy'n cael eu geni cyn 30 wythnos o fod yn feichiog.*

**Prif Ymchwilydd:** Yr Athro Sailesh Kotecha

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Mae AZTEC yn hapdreial rheoledig, amlganolfan o azithromycin i atal clefyd cronig yr ysgyfaint mewn babanod sy'n cael eu geni cyn pryd, gyda'r nod o recriwtio 800 o fabanod ledled y DU. Caiff y cyfranogwyr cyntaf eu recriwtio i AZTEC i ymchwilio i b'un a all y gwrthfiotig azithromycin wella canlyniadau'r ysgyfaint mewn babanod sy'n cael eu geni cyn 30 wythnos o fod yn feichiog.

# Adran y Meddwl, yr Ymennydd a Niwrowyddorau





## RAPID

**Prif Ymchwilydd:** Yr Athro Jonathan Bisson
**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

*Hapdreial rheoledig pragmatig o raglen hunangymorth dan arweiniad sy'n canolbwyntio ar drawma, yn erbyn therapi ymddygiad gwybyddol unigol sy'n canolbwyntio ar drawma ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma.*

Nod yr ymchwil hon yw pennu a yw hunangymorth dan arweiniad (GSH) sy'n canolbwyntio ar drawma, gan ddefnyddio rhaglen ar y we, yn darparu triniaeth gynt a rhatach ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma na therapi ymddygiad gwybyddol unigol sy'n canolbwyntio ar drawma (y driniaeth a argymhellir gan NICE ar hyn o bryd), a'r un mor effeithiol. Rydym wedi llwyddo i recriwtio 196 o gyfranogwyr ledled y DU (Cymru, Lloegr a'r Alban) i'r astudiaeth, ac rydym wrthi'n casglu data deilliannau dilynol (ar hyn o bryd mae'r cyfraddau ymateb uwchlaw 80% ar ôl triniaeth). Yr Athro Jonathan Bisson yw Prif Ymchwilydd yr Astudiaeth, y cyhoeddir adroddiad arni yn Ebrill 2021 (NIHR HTA, £1,135,331).

## Canllaw clinigol cyntaf ar gyfer rheoli clefyd Huntington drwy ffisiotherapi

Mae ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd yn rhan o gonsortiwm byd-eang sydd wedi cyhoeddi'r canllaw clinigol cyntaf ar gyfer rheoli clefyd Huntington drwy ffisiotherapi.

Mae'n dilyn mwy na degawd o ymchwil arloesol gydweithredol dan arweiniad tîm o Brifysgol Caerdydd (ac wedi'i chydlynu gan y Ganolfan Treialon Ymchwil) i sut mae rheoli'r cyflwr niwro-ddirywiol ofnadwy a chyfyngol hwn.

Nid oes triniaethau i atal neu wrthdroi clefyd Huntington, sy'n niweidio celloedd nerfau yn yr ymennydd gan effeithio ar symudiad, y cof, ac ymddygiad. Mae'n effeithio ar 6-13 o bob 100,000 o bobl.

Mae hyn yn golygu mai ffisiotherapi yw un o'r ychydig ddulliau sy'n cynnig ansawdd bywyd gwell i'r rhai sydd â'r clefyd etifeddol hwn.

Fe wnaeth adolygiad ar y cyd gan ymchwilwyr ym Mhrifysgolion Caerdydd, Columbia, Ohio State ac Wayne State edrych ar ymchwil flaenorol yn y maes hwn, gan ddadansoddi data o 26 astudiaeth wahanol.

Canfu'r adolygiad bod ffisiotherapi yn allweddol i wella namau echddygol, fel dystonia neu gorea (symudiadau di-reolaeth), anystwythder, problemau gyda cherddediad neu gydbwyso yn y rhai sy'n dioddef o'r clefyd.

## LEAP-MS

**Prif Ymchwilydd:** Yr Athro Monica Busse
**Rheolwr yr Astudiaeth:** Dr Julie Latchem-Hastings

Gwyddwn fod gweithgarwch corfforol ac ymarfer corff yn bwysig i bobl sydd â Sglerosis Ymledol (MS), ac y gall helpu i reoli symptomau MS fel blinder. Fodd bynnag, gall pobl sydd â MS, yn enwedig y rhai sydd â phroblemau symudedd, ei chael hi'n anodd dechrau a chynnal gweithgarwch. Mae'r prosiect hwn yn datblygu ffyrdd newydd i'w helpu i fod mor egnïol â phosibl yn gorfforol. Yn y flwyddyn flaenorol, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yng Ngham 1 i gydgynhyrchu (gyda chyfranogiad pobl â MS sy'n gwaethygu (PwPMS) a ffisiotherapyddion/gweithwyr gofal iechyd proffesiynol) ymyrraeth wedi'i phersonoli; 'Life-style, Exercise and Activity Package for people living with progressive Multiple Sclerosis (LEAP-MS)' i hwyluso gweithgarwch corfforol parhaus i bobl â MS sy'n gwaethygu.

Mae'r gyfres o weithgareddau yn cynnwys deunydd priodol sydd ar gael yn rhwydd ar-lein – fel y deunydd a ddarperir gan y Gymdeithas MS, fideos o weithgareddau a grëwyd gan aelodau'r tîm ymchwil ar gyfer prosiectau cysylltiedig, a deunydd a ddatblygwyd o'r newydd i lenwi bylchau yn y deunyddiau sydd ar gael. Elfen bwysig o'r deunydd newydd y mae'r tîm wedi'i greu yw cyfres o ymarferion aerobeg/dawnsio eisteddog o ansawdd uchel â chwmni o'r enw 'MojoMoves'. Mae'r gyfres newydd 'Mojo Moves for MS' yn cyfuno cerddoriaeth boblogaidd, symudiadau dawnsio, aerobeg a chomedi i wneud ymarfer corff yn hwyl – ac i'w wneud yn bosibl i bobl â MS nad ydynt yn gallu mynychu a chymryd rhan mewn dosbarthiadau aerobeg confensiynol. Ffilmiwyd y sesiynau ag aelodau Cymdeithas MS Caerfaddon a'r Rhanbarth, ac fe'i hadolygwyd gan grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd LEAP-MS. Bu'r ymateb i'r sesiynau Mojo Moves for MS yn gadarnhaol dros ben.






Erbyn hyn, rydym mewn sefyllfa i brofi a gwerthuso'r ymyrraeth. Ein nod yw recriwtio 21 o bobl ag MS sy'n gwaethygu i edrych ar b'un a yw ymyrraeth LEAP-MS yn ddichonol ac yn dderbyniol iddynt ai peidio: caiff hyn ei gynnal ar-lein yn unig ar hyn o bryd, oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Bydd pobl ag MS sy'n gwaethygu yn cael gwybod am yr astudiaeth drwy eu cangen MS leol a thrwy ddulliau cyfathrebu a gymeradwywyd gan y Gymdeithas MS. Bydd unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn gallu hunangyfeirio at yr astudiaeth drwy wefan LEAP-MS.

LEAP MS

## Adran Iechyd y Boblogaeth

### Gwerthuso Partneriaeth Nyrsys Teulu: dulliau a phroses werthuso

**Prif Ymchwilydd:** Yr Athro Mike Robling

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r dulliau o ddefnyddio data iechyd, addysg a gofal cymdeithasol sy'n cael ei gasglu'n rheolaidd i werthuso'r Bartneriaeth Nyrsys Teulu (FNP) yn Yr Alban, gan ddefnyddio methodoleg arbrawf naturiol.

Darllenwch y papur llawn yma:
**www.gov.scot/publications/evaluation-family-nurse-partnership-scotland-methods-paper-process-success-linkages**

### Ffrindiau FRANK

**Prif Ymchwilydd:** Dr James White

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd NIHR

Astudiaeth Ffrindiau FRANK fydd y gwerthusiad mwyaf o ymyrraeth atal cyffuriau a gynhaliwyd yn y DU erioed, â thros 5,000 o fyfyrwyr ysgol uwchradd yn cymryd rhan. Yn Ffrindiau FRANK, fe wnaethom hyfforddi 25 o aelodau staff Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ledled Cymru i gyflwyno'r ymyrraeth.





# PECYN GWAITH 5:
## Sicrhau datblygiad methodolegol a phroffesiynol

**Datblygu ffyrdd newydd o ateb cwestiynau clinigol pwysig, a chynnal gweithlu deinamig a phroffesiynol**



Tim Pickles yng Nghrwsibl GW4. Erbyn hyn, mae gan Tim gais llwyddiannus am Gymrodoriaeth Ddoethurol NIHR.

## Cymrodoriaeth Ddoethurol NIHR

Dyfarnwyd Cymrodoriaeth Ddoethurol NIHR i Tim Pickles. Mae hon yn Gymrodoriaeth amser-llawn 3 blynedd a gefnogir gan Gymrodoriaeth Ddoethurol y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd (NIHR), a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Iechyd Ymchwil a Gofal Cymru. Bydd y Gymrodoriaeth yn canolbwyntio ar ddilysu eitemau o Fesurau Canlyniadau a Gofnodir gan Gleifion (PROMs) ar gyfer Difrifoldeb Symptomau Arthritis Gwynegol (RA) gan ddefnyddio theori mesur Rasch, gyda'r nod o ddatblygu prawf addasedig cyfrifiadurol.

## Dyfarniadau Ymchwil Ôl-ddoethurol

**Ymchwilydd:** Dr Julie Latchem-Hastings
**Dyfarniad:** Cymrodoriaeth Ôl-ddoethurol Gofal Cymdeithasol
**Teitl yr Ymchwil:** Bwydo, Bwyta ac Yfed mewn Gofal Niwrolegol: Rhannu arfer i Drawsffurfio Gofal (FEAST).

**Ymchwilydd:** Dr Heather Strange
**Dyfarniad:** Cynllun Ariannu Ymchwil: Grant Iechyd
**Teitl yr Ymchwil:** NIPT (Profion Cyn-geni Anymwthiol) Cymru: Deall a Gwella Tirwedd Newydd Sgrinio Cyn-geni

## Graddedigion doethurol llwyddiannus

Roedd dwy o'n hymgeiswyr doethurol llwyddiannus diweddar fel a ganlyn:

**Dr Vicky Shepherd.** Astudiodd Vicky y pwnc o gynnwys pobl nad oes ganddynt y gallu i gydsynio ag ymchwil, sy'n codi heriau moesegol, cyfreithiol ac ymarferol. Bu ffocws yn ddiweddar ar boblogaethau sydd wedi'u tangynrychioli mewn ymchwil, gan gynnwys oedolion nad oes ganddynt y gallu i gydsynio, a galwadau i greu datblygiadau arloesol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn. Yn ystod ei Chymrodoriaeth NIHR, archwiliodd Vicky yr heriau hyn, a datblygu ymyrraeth gymhleth newydd i gefnogi aelodau teulu sy'n gwneud penderfyniadau am gymryd rhan mewn ymchwil ar ran rhywun nad oes ganddynt y gallu i gydsynio.

**Dr Gwen Moody.** Mae Gwen yn aelodau staff rhan-amser yn y Ganolfan Treialon Ymchwil, sy'n gweithio fel Rheolwr Treialon a Chydymaith Ymchwil. Archwiliodd Gwen y ffactorau a all ragfynegi cam-drin plant drwy ddadansoddiad eilaidd o set ddata treial. Roedd hyn hefyd yn cynnwys archwilio sut y gellir defnyddio data rheolaidd i ddeall ac ateb cwestiynau ynghylch cam-drin, gan gynnwys barnau lleyg a phroffesiynol, ynghyd ag ystyriaethau llywodraethu yng nghyd-destun y DU. Mae Gwen yn un o sawl aelod staff y Ganolfan Treialon Ymchwil sydd wedi ymgymryd ag astudiaethau doethurol rhan-amser ochr yn ochr â'u gwaith o ddydd i ddydd.

## Cyfarfod Hwb Ymchwil De-orllewin y DU

Cynhaliwyd ail gyfarfod Hwb Ymchwil De-orllewin y DU gan y Ganolfan Treialon Ymchwil ddydd Iau, 5 Medi 2019 yn Adeilad Morgannwg Prifysgol Caerdydd. Y thema eleni oedd Methodoleg Treialon. Roedd tua 60 o gynrychiolwyr yn bresennol o bob rhan o ranbarth de-orllewin y DU a phartneriaeth G4, gan gynnwys y Ganolfan Treialon Ymchwil, Cydweithrediad Hapdreialon Bryste (BRTC), Uned Treialon a Gwerthusiadau Clinigol (CTEU) Bryste, Uned Treialon Clinigol Penrhyn (PenCTU) Plymouth, Uned Dreialon Abertawe ac uned Treialon Clinigol Exeter (ExeCTU) / Prifysgol Exeter.

## Cynhadledd Ryngwladol Methodoleg Treialon Clinigol

Cyfrannodd staff y Ganolfan at 5ed Cynhadledd Ryngwladol Methodoleg Treialon Clinigol (ICTMC) yn Brighton.

Cynrychiolwyr y Ganolfan gan bedwar siaradwr yng nghynhadledd ICTMC.

Cyflwynodd Kerry Hood a Cheney Drew astudiaeth TRIDENT. Mae TRIDENT (a ariennir gan RfPPB) yn arbennig o arloesol, gan y cafodd ei llunio i bennu safonau ar gyfer gwerthuso therapiwteg newydd mewn clefyd Huntington ac anhwylderau niwro-ddirywiol eraill.

Cyflwynodd Vicky Shepherd ei gwaith ar ddatblygu ymyrraeth i gefnogi penderfyniadau gwybodus gan aelodau teulu oedolion nad oes ganddynt y gallu i gydsynio â threialon. Siaradodd Fiona Lugg-Widger am ei gwaith, sydd wedi cynnwys datblygu deunyddiau a hysbysu ac ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch ymchwil gan ddefnyddio data rheolaidd, sydd wedi arwain at lunio animeiddiad. Yn olaf, rhoddodd Mike Robling gyflwyniad ar heriau gweithio â data gofal iechyd a ddarperir gan GIG Digidol pan rydych yn bwriadu rhannu'r data hwnnw mewn meta-ddadansoddiad dilynol o ddata cyfranogwyr unigol neu ddadansoddiadau eilaidd. Yn ogystal, cyflwynwyd sawl poster ymchwil gan staff y Ganolfan.

Mae ein ffocws ar ddatblygu dulliau a rhannu arfer gorau ac arloesedd, sydd wedi arwain at arwain cyflwyniadau yn nigwyddiad ICTMC, yn cysylltu'n uniongyrchol â'n rhaglen waith Sicrhau Datblygiad Methodolegol a Phroffesiynol.

## Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysgu Prifysgol Caerdydd

Enillodd y cwrs addysgu ymsang wobr rhagoriaeth mewn addysgu yn Surgam 2020, sy'n dathlu cyflawniadau a safon uchel yr addysgu a geir gan staff a phartneriaid y GIG. Mae staff y Ganolfan Treialon Ymchwil yn cyfrannu at sawl modiwl ymchwil ar y cwrs hwn, yn ogystal â goruchwylio prosiectau myfyrwyr, ac mae'n arbennig o werthfawr i ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa o ran ennill profiad addysgu.

## Derbyniad Blynyddol Ymchwil Canser y DU

Roedd Sarah Bridges yn bresennol yn y digwyddiad hwn i gynrychioli'r Ganolfan Treialon Ymchwil. Roedd y digwyddiad yn tynnu sylw Senedd Cymru at y gwaith y mae Ymchwil Canser y DU yn ei ariannu yng Nghymru, felly roedd yn fendigedig bod y Ganolfan Treialon Ymchwil wedi'i chynrychioli yn y digwyddiad. Soniodd yr AS Janet Finch-Saunders am y Ganolfan yn ei haraith:

"Y llynedd, gwariom £4 miliwn ar ymchwil yng Nghymru. Fel y gallwch weld o'n harddangoswyr heddiw, mae Ymchwil Canser y DU yn cefnogi'r Ganolfan Treialon Ymchwil yng Nghaerdydd."

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Cyflwynodd y Ganolfan Treialon Ymchwil a DECIPHer arddangosfa ar y cyd yn y digwyddiad i ddathlu pen-blwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 30 oed yng Ngwesty'r Mercure, Caerdydd. Roedd Comisiynydd Plant Cymru, Sally Holland, yn bresennol yn y digwyddiad, ynghyd â Julie Morgan AS a Phrif Weinidog Cymru, Mark Drakeford. Roedd nifer fawr o blant ysgol gynradd ac uwchradd o bob rhan o Gymru yn bresennol hefyd (gan gynnwys band dur o Ysgol Uwchradd Fitzalan), yn ogystal â chynrychiolwyr amrywiol o ystod o awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau preifat. Roedd ein stondin yn canolbwyntio ar y gwaith rydym yn ei wneud i gynnwys plant a phobl ifanc mewn ymchwil. Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn bartner â DECIPHer, ac mae ein hymchwilwyr yn cydweithio â'i grŵp ALPHA (pobl ifanc 14-24 oed) i ddatblygu a gweithredu ymchwil sy'n cynnwys plant a phobl ifanc.

# PECYN GWAITH 6:
# RDCS a'r GIG

Cefnogi staff yn y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddatblygu eu hymchwil eu hunain i fynd i'r afael â chwestiynau pwysig ynghylch gofal cleifion a'r cyhoedd



## Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm wedi cael 117 o geisiadau am gymorth, a chyflwynwyd 25 o geisiadau am gyllid. Bu pedwar cais yn llwyddiannus eleni, a chyfanswm gwerth y cyllid oedd £993,780.

Mae Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) De-ddwyrain Cymru wedi cynnal ei dri digwyddiad rheolaidd yn ystod 2019: 'Datblygu syniad ar gyfer ymchwil' ym mis Ebrill, 'Sylfeini cais cystadleuol am grant' ym mis Mehefin, a'r diwrnod 'Ysgrifennu grantiau' ym mis Medi. Mae'r digwyddiadau hyn wedi denu cynrychiolwyr o naw o sefydliadau'r GIG yng Nghymru a phedwar gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol Cymru-gyfan, sef Gwasanaeth Geneteg Cymru Gyfan, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Ymddiriedolaeth y Gofalwyr. Cynrychiolwyd ystod eang o arbenigeddau yn y digwyddiadau agored e.e. yn y diwrnod ysgrifennu grantiau, gweithiodd y cynrychiolwyr ar naw o syniadau ar gyfer prosiectau gwahanol ar draws iechyd meddwl, gofal sylfaenol, microbioleg, iechyd rhywiol, epidemioleg, gofal cymdeithasol ac iechyd cyhoeddus.

Rydym wedi cymryd rhan mewn sawl digwyddiad wedi'u targedu: Gwnaethom fynychu Fforwm Ymchwil Atgenhedlu a Geni Plant Cymru Gyfan, sef grŵp dan arweiniad yr Athro Julia Sanders yn ei rôl fel arweinydd arbenigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cais mawr am gyllid, ac rydym wedi cynnal digwyddiad ymgynghori pwrpasol i fydwragedd sy'n gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ym mis Hydref, fe wnaethom ddarparu ymgynghoriad grŵp i Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cysylltiad â chynllun dyfarnu Amser Ymchwil y GIG. Ar ddiwedd mis Tachwedd, cyflwynodd yr ymgynghorydd RDCS, Philip Pallmann, weithdy ymchwil ar y cyd o'r enw "Biomaterials: From Bench to Bedside", a gynhaliwyd gan Athrofa Peirianneg a Thrwsio Meinwe Caerdydd (CITER) a Rhwydwaith Ymchwil Deunyddiau Caerdydd (CMRN). Nod y gweithdy hwn oedd helpu ymchwilwyr i drosi eu technolegau bioddeunyddiau i'r clinig er budd cleifion ac, yn benodol, ymgynefino â'r llwybrau cyllid ar gyfer astudiaethau clinigol ac o ble y gallant gael cymorth, gan gynnwys gan RDCS.

Bu gan y tîm stondinau arddangos mewn ystod o gynadleddau, gan gynnwys Cydweithrediad Cynyddu Gwaith Ymchwil Cymru (RCBC) ym mis Mai, cynhadledd ymchwil a datblygu Aneurin Bevan ym mis Mehefin, Fforwm Academyddion Clinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym mis Gorffennaf, Gwyddorau Gofal Iechyd ym mis Medi, cynhadledd ymchwil a datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a chynhadledd flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym mis Hydref, a chynhadledd ymchwil a datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ym mis Tachwedd.

Bu dau gyfarfod RDCS Cymru gyfan a Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru (WHESS), sef un drwy gynhadledd sain a chynhaliwyd cyfarfod mis Hydref ym Mangor. Ochr yn ochr â busnes arfer, ffocws y trafodaethau oedd y fformat newydd Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB), ailgomisiynu a chynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys symleiddio cyfarfodydd.

Cyfarfu grŵp llywio RDCS de-ddwyrain Cymru, â chynrychiolwyr o sefydliadau ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol, ym mis Chwefror i adolygu cynnydd y gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf a thrafod y cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth wrth iddo symud i gyfnod ariannu newydd.

Cynorthwyodd y gwasanaeth 12 o dimau â'u ceisiadau ar gyfer cam 1 yr alwad RfPPB, ac mae'n parhau i weithio â'r saith tîm a wahoddwyd i gyflwyno ceisiadau cam 2. Mae'r rhain yn cael eu harwain gan bum sefydliad gwahanol y GIG (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru).

# Y Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil (RDCS)

Ebrill 2019
Mawrth 2020

**Mae Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) de-ddwyrain Cymru'n cynorthwyo staff sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gofal cymdeithasol i ddatblygu cynigion ariannu ymchwil o ansawdd uchel.**

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu gan ymgynghorwyr RDCS o'r Ganolfan Treialon Ymchwil, sef y grŵp mwyaf o staff treialon clinigol academaidd yng Nghymru.

**117**
o geisiadau am gymorth gan ymgynghorwyr RDCS

Cyflwynodd
**25**
o unigolion geisiadau am arian ymchwil

Cleientiaid o
**5**
Bwrdd Iechyd yng Nghymru

**£993,780**
yw cyfanswm gwerth y ceisiadau llwyddiannus am arian

**4**
cais llwyddiannus

## Ymgysylltu

- Cynhadledd flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- RCBC Cymru
- Fforwm Academyddion Clinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Cynhadledd Ymchwil a Datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cynhadledd Ymchwil a Datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Cynhadledd Ymchwil a Datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cynhadledd Gwyddorau Gofal Iechyd

## Cefnogi Cynyddu Adnoddau Ymchwil

- ✓ Fforwm Ymchwil Atgenhedlu a Geni Plant Cymru Gyfan
- ✓ Athrofa Peirianneg a Thrwsio Meinwe Caerdydd (CITER) a Rhwydwaith Ymchwil Deunyddiau Caerdydd (CMRN)
- ✓ Digwyddiad pwrpasol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru
- ✓ Digwyddiad pwrpasol i fydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



# Casgliad

Bu blwyddyn derfynol cyfnod ariannu cyfredol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gyfnod prysur a chynhyrchiol i'n hymchwilwyr.

Rydym wedi datblygu ystod o fentrau gwyrdd sy'n gymesur â risgiau, er mwyn cyd-fynd â'n nod o gyflawni effeithlonrwydd mewn ymchwil.

Rydym wedi ehangu ein ffocws ar gynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn ymchwil gan gydweithio â'n Canolfan Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd newydd, a pharhau â'n busnes craidd, sef dod â thimau ynghyd i ennill cyllid grant. Erbyn hyn, mae cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i ymgorffori'n llawn ar draws y Ganolfan, ac mae cynnwys y cyhoedd wedi'i normaleiddio'n llawn fel rhan o'n hastudiaethau a'n treialon.

Eleni, aethom drwy'r broses ail-gomisiynu 5 mlynedd, ynghyd â datblygu cydweithrediadau newydd a pharhaus, a chyflwyno rhagor o gynigion i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, rydym wedi agor sawl astudiaeth bwysig ac adroddwyd ar ganlyniadau ystod o astudiaethau sy'n mynd rhagddynt. Rydym wedi parhau i gynyddu nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a chymrodorion sy'n gweithio ochr yn ochr â'n treialon a'n hastudiaethau.

Ffocws craidd dros y flwyddyn ddiwethaf a fu'n amserol iawn oedd i ni ddechrau gweithio tuag at ddod yn uned treialon clinigol wyrddach. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau gweithio o bell, a'n gwasanaethodd yn dda yn ystod y pandemig COVID-19 byd-eang.

# Edrych tua'r dyfodol

Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil wedi sefydlu ei hun ar flaen y gad o ran treialon cymhleth a heriol, yn fethodolegol ac yn glinigol. Ei weledigaeth yw dylunio a chyflwyno ymchwil ryngwladol ragorol, sydd â pherthnasedd lleol, mewn iechyd a gofal cymdeithasol gan ddefnyddio dulliau newydd ac effeithlon.

Crëwyd y Ganolfan Treialon Ymchwil yn 2015 drwy gyfuno tair uned treialon ymchwil a oedd wedi'u cofrestru â Chydweithrediad Ymchwil Clinigol y DU (UKCRC), â'r genhadaeth i wella iechyd a lles cymdeithas drwy dreialon ac ymchwil arall wedi'i llunio'n dda. Mae creu'r Ganolfan wedi cynyddu màs critigol yr arbenigedd mewn treialon o gynhyrchion meddyginiaethol, treialon cynnar a dyluniadau newydd ar gyfer treialon, ac wedi ehangu a chryfhau ystod y sgiliau y gallwn eu cynnig i'n partneriaid mewn ymchwil. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein staff yn cynnig budd parhaus i bobl Cymru o ran eu hiechyd a lles, yn ogystal â'r economi. Rhan allweddol o hyn fydd manteisio i'r eithaf ar werth buddsoddiad mewn ymchwil drwy sicrhau ein bod yn cyflwyno astudiaethau mor effeithlon ag y bo modd, ond hefyd bod ein hymchwil yn newid bywydau o ddifrif drwy hysbysu polisi, arfer a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Ein nod strategol dros y pum mlynedd nesaf yw bod ar flaen natur gyfnewidiol treialon mewn iechyd a gofal cymdeithasol drwy fanteisio i'r eithaf ar ddefnydd eilaidd o ddata presennol, sbarduno effeithlonrwydd o ran dylunio a chynnal, a manteisio ymhellach ar ddyluniadau newydd ar gyfer treialon. Byddwn yn cyflawni hyn wrth barhau i dyfu ein henw da rhyngwladol ym mhedwar maes Canser; Haint, Llid ac Imiwnedd; Y Meddwl, Yr Ymennydd a Niwrowyddorau; ac Iechyd y Boblogaeth. Ym mhob un o'r meysydd hyn, byddwn yn cyflwyno astudiaethau pwysig newydd ac yn datblygu prif ymchwilwyr a methodolegwyr newydd, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen nawr ar boblogaeth Cymru, yn ogystal â rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i gyflwyno tystiolaeth y dyfodol.

Caiff y nod hwn ei gyflawni drwy gynnal a datblygu partneriaethau gweithredol ac adeiladol yng Nghymru â chleifion a'r cyhoedd, staff yn y GIG ac mewn gofal cymdeithasol, elfennau eraill o seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ymarferwyr, llunwyr polisïau yng Nghymru a'r tu hwnt, y trydydd sector a diwydiant. Byddwn hefyd yn datblygu ac yn ymgysylltu'n weithredol â phartneriaethau ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu staff mewn gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyflwyno gwasanaeth cymorth ymgynghorol rhagweithiol ac ymatebol, a chyfrannu at y diwylliant ymchwil cynyddol yn ein sefydliadau partner ledled Cymru.

“Mae gweithio gyda’r Ganolfan Treialon Ymchwil wedi bod yn hynod werthfawr o ran sicrhau cyllid grant a chynnal hap-dreial wedi’i reoli gan sawl canolfan. Mae’r Ganolfan yn rhoi cefnogaeth i’r Prif Ymchwilydd o ddydd i ddydd i ddelio â’r ariannwr a’r safleoedd recriwtio, i gymeradwyaethau rheoleiddio, arian a chyllidebu, nawdd, cyswllt diwydiant, a’r holl fiwrocratiaeth arall sy’n ymwneud â threialon clinigol.

Rheolwr y treial yw’r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y materion hyn, ac mae’n delio â nhw o ddydd i ddydd, gan ganiatáu i’r Prif Ymchwilydd ganolbwyntio ar yr ymchwil. Mae unrhyw Brif Ymchwilydd newydd eisiau gwybod bod eu hymchwil o’r ansawdd uchaf, ac nid oes rhaid iddynt gael eu gorlethu ag agweddau gweinyddol cynnal hap-dreial wedi’i reoli.

Mae gweithio gyda’r Ganolfan yn rhoi hyder llwyr i mi fod yr hap-dreial wedi’i reoli yn cael ei gynnal i’r safonau uchaf, a bydd y canlyniadau terfynol yn cael eu defnyddio i lywio arferion clinigol, gan wybod bod yr arferion gorau ar hyn o bryd wrth reoli treialon wedi’u dilyn.”

Yr Athro Enitan Carrol,
Prifysgol Lerpwl
**Prif Ymchwilydd:** PRONTO



# Diolch

Hoffai'r Ganolfan Treialon Ymchwil ddiolch i holl aelodau'r cyhoedd a chyfranogwyr yr astudiaethau a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn ein hastudiaethau o'u gwirfodd ac â haelioni mawr, er mwyn helpu i wella canlyniadau iechyd i genhedloedd y dyfodol. Ein gweledigaeth yn creu diwylliant sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn i ni wybod beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio. Mae hyn yn amhosibl heb eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

Diolch yn fawr i'n holl "gynrychiolwyr lleyg", sy'n rhoi o'u hamser i gymryd rhan mewn grwpiau rheoli astudiaethau, pwyllgorau llywio, ac sy'n ymwneud â chyflwyno a chymryd rhan mewn gwaith ymchwil. Rydych yn llywio cwestiynau ymchwil, gwaith llunio astudiaethau, cynllunio, rheoli a llunio adroddiadau, sicrhau bod deunyddiau astudio yn ddefnyddiol i'r cyhoedd – ac yn y pen draw, yn helpu ein holl astudiaethau i gael eu cwblhau a'u cyhoeddi'n llwyddiannus.

Diolch i Seth Oliver / www.fizzievents.com/ @relationalsoup am ei ganiatâd caredig i ddefnyddio lluniau o ddigwyddiad cyd-gynhyrchu LEAP-MS.

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym yn diolch i'n cynrychiolwyr o'r Ganolfan Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (PI&E), Sue Campbell a Sarah Peddle.


Sue Campbell


Sarah Peddle

## Cysylltu â ni

Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn fodlon ystyried unrhyw astudiaeth wedi'i dylunio'n dda neu syniad i'w dreialu, hyd yn oed os ydynt y tu hwnt i'w meysydd ymchwil presennol. Am ragor o wybodaeth am weithio gyda'n tîm ymchwil neu gael gwybod am y newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf:

E-bost: **ctr@caerdydd.ac.uk**

Rhif ffôn: **029 2068 7620**

Twitter: **@CTRCardiffUni**

Blog: **blogs.cardiff.ac.uk/centre-for-trials-research**

Gwefan: **www.caerdydd.ac.uk/centre-for-trials-research**